

Celf a Dylunio
5 i 7

# Hapa Zome

## Trosolwg

Mae Hapa-zome yn derm Japaneaidd sy'n golygu 'lliw-dail.' Mae'n darparu cyd-destun gwych i ddisgyblion ymchwilio i'r byd naturiol gan ddefnyddio ystod o ddeunyddiau o fyd natur tra hefyd yn datblygu sgiliau motor.

## Canlyniadau posibl i ddangos dysgu

- Dysgu sgil newydd sef hapa zome Japaneaidd
- Mynegi'n greadigol drwy dechneg gelf draddodiadol
- Datblygu sgiliau motor manwl a bras

## Offer

- Morthwylion pren, rholbren neu ddim ond cerrig maint llaw hyd yn oed
- Ffabrig cotwm fel calico, cynfas gwely wedi'i thorri neu fwslin (Papur Cegin yn gweithio hefyd)
- Dail ffres amrywiol, aeron a blodau

## Gweithgaredd

1. Casglwch amrywiaeth o ddail, aeron a blodau.
2. Gosodwch y deunydd naturiol ar ddarn bach o ffabrig cotwm.
3. Gorchuddiwch yr eitemau naturiol gydag ail ddarn o ffabrig.
4. Morthwyliwch yr haen uchaf o ddefnydd nes bod y lliw i'w weld yn treiddio drwyddo.
5. Tynnwch yr haen uchaf a'r deunydd planhigion i fwynhau'r argraffnod ar y ffabrig.

## Canlyniadau posibl i ddangos dysgu

| Maes pwnc | Cysylltiadau cwricwlwm a awgrymir | Allbynnau posibl i ddangos dysgu |
|---|---|---|
| Dylunio a thechnoleg | Dylunio | Gwneud amrywiaeth o eitemau gwahanol gan ddefnyddio'r technegau, fel baneri, labeli neu ddillad hyd yn oed |
| Gwyddoniaeth | Priodweddau deunyddiau | Ymchwilio i ba mor addas yw gwahanol ddeunyddiau a pha mor dda mae'r lliw naturiol yn cael ei amsugno |
| Mathemateg | Siâp | Herio'r disgyblion i ymgorffori cymesuredd neu batrymau ailadroddus yn eu dyluniadau |

Learning through Landscapes

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrsiau hyfforddi: **ltl.org.uk/outdoor-learning-training**

© Mae'r daflen weithgarwch yma wedi cael ei chreu gan Ymddiriedolaeth Learning through Landscapes. Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr rhif 803270 ac yn yr Alban SCO38890